

PWYLLGOR ARCHWILIO

COFNODION

Dyddiad: 6 Tachwedd 2001

Amser: 9.00am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn Bresennol

Aelodau

Janet Davies (Cadeirydd)	Gorllewin De Cymru
Lorraine Barrett	De Caerdydd a Phenarth
Eleanor Burnham	Gogledd Cymru
Alun Cairns	Gorllewin De Cymru
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru
Alison Halford	Delyn
Janice Gregory	Ogwr
Ann Jones	Dyffryn Clwyd
Dafydd Wigley	Caernarfon

Swyddogion

Syr John Bourn	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Lew Hughes	Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru
Ian Summers	Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Gillian Body	Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Frank Grogan

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Dave Powell

Swyddog Cydymffuriad y Cynulliad

Russell Keith

Clerc y Pwyllgor

James Owen

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Trefniadau Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Papur: AC-07-01(p.1)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cymerodd Lorraine Barrett le Peter Law, cymerodd Janice Gregory le Lynne Neagle a chymerodd Eleanor Burnham le Kirsty Williams.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur ar drefniadau adeilad y Cynulliad. Diolchwyd i'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru (NAO) am lunio'r papur, ar gais y Cadeirydd, ar rybudd byr. Dosbarthwyd llythyr dyddiedig 5 Tachwedd gan y Richard Rogers Partnership i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i bob aelod er gwybodaeth.

1.3 Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw'r Pwyllgor at y cynnydd yn y rhagamcan o'r costau adeiladu rhwng mis Tachwedd 2000 a mis Mehefin 2001. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad y byddai'n debygol y byddai Adeilad newydd y Cynulliad yn llai, yn fwy drud ac yn cael ei adeiladu'n hwyrach na'r disgwyl pan bleidleisiodd y Cynulliad i fynd ymlaen â'r project ym mis Mehefin 2000.

4. Cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i roi adroddiad arall i'r Pwyllgor ar ôl i'r Cynulliad benderfynu ar ddyfodol y project ac ar ôl i'r contractau priodol fod ar waith. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod yn anodd dadansoddi'r cynnydd yn y rhagamcan o'r gost ar hyn o bryd am fod y Cynulliad a Richard Rogers Partnership yn anghytuno ynghylch dadansoddiad o gostau'r project.
- Bydd adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yn ystyried dadansoddiad o gostau'r project, rhwng costau nas rhagwelwyd a'r newidiadau yn y fanyleb o'r adeilad.
- Ni chanfu'r Archwilydd Cyffredinol unrhyw dystiolaeth bod y wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid yn ei datganiad i'r Cynulliad ym mis Ionawr 2001 yn gamarweiniol.
- Cyfrifwyd y trafodaethau ar ffioedd tîm cynllunio'r Richard Rogers Partnership ar sail cost plws ar ddechrau'r broses, sef fel canran yn ychwanegol at y costau adeiladu yr aethpwyd iddynt. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad dyma'r dull gorau bob amser ar gyfer pennu ffioedd am nad oes unrhyw gymhelliad i reoli costau. Efallai y byddai capio'r ffi wedi hynny wedi helpu rheoli cost ffioedd proffesiynol.
- Pan ofynnwyd iddo wneud cymhariaeth, nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd llawer o debygrwydd rhwng project Dôm y Mileniwm a threfniadau adeilad y Cynulliad. Cyflenwyd y gwaith cyfalaf ar gyfer y cyntaf ar amser yn fras ac o fewn y gost. Roedd yr anawsterau gweithredu yn

ymwneud â nifer isel yr ymwelwyr ac nid â'r gwaith adeiladu. Fodd bynnag, mae'r anawsterau yn nhrefniadau adeilad y Cynulliad yn gymhleth ond nid yn unigryw.

- Nid oes unrhyw contract ysgrifenedig rhwng y partiön er bod cytundeb a allai fod wedi cynnwys sylfaen contract. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai contract ysgrifenedig fod wedi cyfyngu yn hytrach na dileu y problemau a welwyd. Ni ellir rheoli projectau trwy contract ysgrifenedig yn unig, mae'n rhaid cael cytundeb rhwng y partiön er mwyn cael canlyniad llwyddiannus. Mae'n amlwg bod gan y Cynulliad a Richard Rogers Partnership syniadau gwahanol am yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn y cytundeb.
- Mae'r trefniadau contract gwreiddiol yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn y Cynulliad er y gellir priodoli'r costau oedi i benderfyniadau a wnaed ers sefydlu'r Cynulliad.
- Rhoddir ystyriaeth i alw'r partiön cysylltiedig i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Eitemau 2 a 3: Amcangyfrif Drafft o Incwm a Gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian

Papurau: AC-07-01(p.2) a AC-07-01(p.3)

1. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried eitemau 2 a 3 gyda'i gilydd.
2. Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol y papurau, yn amlinellu bod yr amcangyfrif drafft yn gofyn am gynnydd o ryw £200,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-2003. Mae hwn yn adlewyrchu cynnydd o 4% yn y costau gweithredu presennol, y gellir ei briodoli'n bennaf i gynnydd mewn cyflogau. Byddai £125,000 o'r cynnydd y gofynnwyd amdano yn cael ei ddefnyddio i gyflogi 5 aelod newydd o staff. Bydd rhai o'r aelodau newydd hyn yn delio â chyfrifon newydd i'w harchwilio megis y Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Cyngor Gofal Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru yn ogystal ag arian Amcan 1 yr UE. Mae angen staff newydd hefyd i gynorthwyo'r Rhaglen Gwerth am Arian i sicrhau bod amrywiaeth o astudiaethau'n cael eu cynnal, rhai yn cynnwys ymweliadau â sefydliadau lleol megis ysbytai neu golegau addysg bellach. Defnyddir yr adnoddau ychwanegol hefyd fel dilyniant i weithredu argymhellion, ac i ymateb i geisiadau penodol gan y Pwyllgor, megis y papur diweddar ar adeilad y Cynulliad y gofynnwyd amdano.
3. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:
 - Mae'n bwysig bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith dilyniant i nodi arbedion ac effeithiau manteisiol eraill yn sgîl gweithredu argymhellion archwilio. Mae'r adroddiad dilynol ar Gaffael yn y Sector Addysg Bellach yn nodi'r arbedion a gyflawnwyd yn dilyn argymhellion adroddiad cynharach gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
 - Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol bod yr arian sy'n ofynnol i wella seilwaith Technoleg Gwybodaeth yr NAO wedi ei gynnwys o fewn y cynnydd o 4% y gofynnwyd amdano ar gyfer 2002-03, a'i fod yn unol â chostau'r Swyddfa yn fwy cyffredinol.
 - Mae'r arbedion ariannol posibl a nodwyd trwy adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn cronni ac maent wedi mynd y tu hwnt i'r lefel a amcangyfrifwyd o 7 gwaith yn fwy na chostau'r archwiliadau. Y corff a archwiliwyd sy'n gyfrifol am wneud yr arbedion hyn, er y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn chwarae ei ran yn gynorthwyo, a gall gymryd peth amser i wireddu'r arbedion llawn.
 - Gofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried archwilio twyll yn yr NHS fel rhan o raglen Gwerth am Arian yn y dyfodol. Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith yn y maes hwn a

nododd y byddai arolwg o faterion twyll yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad sydd ar fin gael ei gyhoeddi ar Gyfrifon Cryno'r NHS.

- Gofynnwyd i'r aelodau ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol i godi materion posibl ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol neu i roi gwybodaeth ar faterion sy'n cael eu hymchwilio.
- Gofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a ellid dwyn yr ymchwiliad arfaethedig ar Gaffael Cyffuriau yn yr NHS ymlaen o'r dyddiad arfaethedig sef 2003-2004. Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried yr awgrym hwn ac i drafod gydag aelodau perthnasol y Pwyllgor Archwilio.

1. Cytunodd y pwyllgor bod y cynnydd yn yr amcangyfrif drafft yn gymharol fach yng ngoleuni'r rhaglen waith a gynhaliwyd gan NAO Cymru. Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys yr amcangyfrif drafft a'r Rhaglen Gwerth am Arian.

Eitem 4: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru

Papur: AC-07-01(p.4)

1. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gaffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru a gyhoeddwyd ar 27 Medi 2001.
2. Bydd trawsgrifiad ferbatim o'r eitem hon yn atodedig fel atodiad i'r cofnodion hyn.

Tystion

Steve Martin	Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa)
David Richards	Cadeirydd y Grŵp Llywio ar gyfer adolygiad y Cynulliad o gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
Paul Skellon	Tîm Adolygu Caffael yn y Cynulliad
Arwel Thomas	Uwch Reolwr Cydymffurfiaid yn ELWa

Eitem 5: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Papur: AC-05-01(min)

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 6 – Papurau i'w nodi

Teitl

Cyfeirnod y papur

Gohebiaeth gan John Marek ar y gwelliant Arfaethedig i Reol Sefydlog
12.5

AC-07-01(p.5)

Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar Wybodaeth Bellach o
Ganlyniad i Sesiwn Dystiolaeth Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad, 5
Gorffennaf 2001 – "Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd"

AC-07-01(p.6)

Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar Bwyllgor Archwilio'r
Cynulliad: 5 Gorffennaf 2001 – "Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd"

AC-07-01(p.7)

Gohebiaeth gan Ddirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gostau
Gweinyddol y rhaglen Amcan

AC-07-01(p.8)

1. Nododd y Pwyllgor y papurau.

Eitem 7: Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Archwilio

1. Penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

7.2 Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad drafft a chytuno ar ei gynnwys gan wneud rhai mân-newidiadau.

Eitem 8 – Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio ar Sicrhau'r Incwm Mwyaf Oddi Wrth Daliadau Presgripsiynau.

1. Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

2. Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad drafft a chytuno ar ei gynnwys gan wneud rhai mân-newidiadau.

8.3 Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm